

DYRANNU MARCIAU UNFFURF YN Y TGAU (YN GYMWYS O FEHEFIN 2010)

Beth yw GMU?

Defnyddir y Graddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn **manylebau unedol** fel ffordd o adrodd, cofnodi ac agregu perfformiadau ymgeiswyr mewn asesiadau uned / cydran.

Pam bod angen y GMU?

Mewn manyleb unedol gall ymgeiswyr sefyll unedau ar adegau gwahanol yn ystod y cwrs a gallant ailsefyll unedau cyn yr ardystio. Mae pob papur arholiad yn unigryw ac felly gall anhawster yr arholiadau amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn. Mae uwch arholwyr yn ystyried hyn wrth benderfynu ar y marciau crai sydd eu hangen ar gyfer graddau penodol. Maent yn edrych ar samplau o waith ymgeiswyr o'r flwyddyn gyfredol a blynyddoedd blaenorol, adroddiadau arholwyr a data ystadegol.

Er enghraifft, mewn un sesiwn gall fod angen 56 marc crai ar gyfer gradd C ac, yn y sesiwn nesaf (oherwydd bod y papur yn symlach), gall ffin gradd C gael ei gosod ar 58. Defnyddir y GMU fel y bydd gan ymgeiswyr sy'n ennill yr un safon yr un marc unffurf, waeth pryd safwyd yr uned.

Sawl marc unffurf sydd ar gael?

Dyrennir cyfanswm marciau unffurf i bob cymhwyster. Yn nodweddiadol, ar gyfer y TGAU, bydd 200 ar gyfer cwrs llawn a 100 ar gyfer cwrs byr. Rhennir y cyfanswm marciau unffurf rhwng yr unedau yn gymesur â'u pwysigrwydd (pwysiad).

Er enghraifft, mewn manyleb y mae 200 marc unffurf wedi'u dyrannu ar ei chyfer ac y mae ganddi ddwy uned o bwysiad cyfartal, dyrennir 100 marc unffurf i bob uned. Fodd bynnag, os bydd un uned yn cario teirgwaith pwysiad uned arall, yna dyrennir 150 marc unffurf i'r uned sydd â phwysiad yn fwy a dyrennir 50 marc unffurf i'r uned sydd â phwysiad yn llai.

Sut mae marc crai yn cael ei drawsnewid yn farc unffurf?

Yr un yw ystod canrannau'r marciau unffurf a ddyrennir i radd benodol bob blwyddyn:

A*	90 - 100% o gyfanswm y marciau unffurf a ddyrennir i'r uned
A	80 - 89%
B	70 - 79%
C	60 - 69%
D	50 - 59%
E	40 - 49%
F	30 - 39%
G	20 - 29%

Er enghraifft, os dyrennir cyfanswm o 120 marc unffurf i uned, yna ystod y marciau unffurf a ddyrennir i radd B yw 84 i 95 (70% o 120 i 79% o 120). Yn yr un modd, ystod y marciau unffurf a ddyrennir i radd C yw 72 i 83 (60% o 120 i 69% o 120).

Mae marciau unffurf yn ystyried pa mor uchel yw'r marc crai o fewn band gradd; yr uchaf yw'r marc crai, y mwyaf yw'r marc unffurf - hyd at y marc unffurf uchaf posibl ar gyfer y radd. Os nad yw'r cyfrifiad yn cynhyrchu rhif cyfan, yna talgrynnir y marc unffurf i'r rhif cyfan agosaf. Ni chaiff unrhyw farciau unffurf eu dyrannu i farc crai o sero a dyrennir cyfanswm y marc unffurf ar gyfer yr uned i'r marc crai uchaf.

Weithiau defnyddir proses gapio er mwyn dyrannu'r marc unffurf uchaf i'r ymgeiswyr sy'n perfformio orau (y rheiny nad ydynt yn ennill y marc uchaf, ond y mae ganddynt farc crai sy'n llawer uwch na'r marc lleiaf sydd ei angen ar gyfer gradd A). Defnyddir y dull hwn pan fydd y marc crai isaf sydd ei angen ar gyfer gradd A gryn dipyn yn is na'r marc crai uchaf ar gyfer y papur.

Beth sy'n digwydd ag unedau â haenau?

Mae unedau â haenau yn gosod rhywfaint o gyfyngiadau ar y nifer o farciau unffurf y gall ymgeisydd eu hennill. Mae'n bosibl na fydd marc unffurf sy'n uwch na'r ystod a ddyrennir i radd C yn cael ei ddyrannu i ymgeiswyr ar yr Haen Sylfaenol, waeth beth fo'u marc crai. Rhoddir cyfran o'r marciau unffurf a ddyrennir i radd D i ymgeiswyr ar yr Haen Uwch sy'n methu â chyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer gradd D.

Sut mae gradd gyffredinol y pwnc yn cael ei phennu?

Mae'r marciau unffurf a enillir ar gyfer pob uned yn cael eu hadio at ei gilydd ac mae gradd y pwnc yn seiliedig ar y cyfanswm hwn. Mae'r tabl isod yn dangos canran cyfanswm y marciau unffurf sydd ei angen ar gyfer pob gradd.

Canran cyfanswm y marciau unffurf	90 i 100	80 i 89	70 i 79	60 i 69	50 i 59	40 i 49	30 i 39	20 i 29
Gradd a ddyfarnwyd	A*	A	B	C	D	E	F	G

Er enghraifft, os 200 yw cyfanswm y marciau unffurf a ddyrennir i bwnc, dyfernir gradd A* i ymgeisydd sydd â chyfanswm o 180 i 200 marc unffurf a dyfernir gradd E i ymgeisydd sydd ag 80 i 99 marc unffurf.

Beth sy'n digwydd os oes gan y pwnc haenau?

Cyfrifir cyfanswm y marc unffurf fel y disgrifir uchod ond mae'r radd a ddyfernir wedi'i chyfyngu i'r ystod graddau sy'n gysylltiedig â'r haen; A* i D ar gyfer yr Haen Uwch a C i G ar gyfer yr Haen Sylfaenol.

Sut i Gyfrifo trawsnewidiad GMU (Graddfa Marciau Unffurf)

Gellir cymhwyso'r dull canlynol i unrhyw set o farciau crai a roddir ac unrhyw raddfa marciau unffurf er mwyn canfod y trawsnewidiad GMU ar gyfer unrhyw farc crai penodol (fel marc crai ymgeisydd arbennig). Er mwyn cyfrifo'r trawsnewidiad, mae'n rhaid i chi wybod ffiniau gradd y pwnc dan sylw ar gyfer y gyfres briodol.

Ar gyfer unrhyw radd a roddir, cyfrifwch yn gyntaf nifer y marciau crai sydd ar gael o fewn y radd honno. Er enghraifft, mae gan y pwnc ffin o 24 marc i C, a ffin o 30 marc i B, felly mae 6 marc ar gael i radd C (24 i 29).

Nesaf cyfrifwch nifer y marciau sydd ar gael ar y raddfa marciau unffurf gyfatebol. Mae'r rhain wedi'u rhag-ddiffinio ar draws graddau ac yn cynrychioli canran o'r nifer cyffredinol o farciau GMU sydd ar gael.

Cyfrifwch ffactor trawsnewid, nifer y marciau unffurf yn y radd wedi'i rannu â nifer y marciau crai yn yr un radd.

Nesaf, canfyddwch sawl marc crai a sgoriwyd gan yr ymgeisydd ar draws y ffin marciau crai. Lluoswch y rhif hwn â'r ffactor trawsnewid a gyfrifwyd yn flaenorol.

Adiwch y rhif sy'n deillio o hyn at ffin marciau unffurf y radd hon. Y marc hwn fydd marc GMU yr ymgeisydd, i'r marc crai penodol hwnnw.

Enghraifft

Enillodd ymgeisydd farc crai o 47 ar uned TGAU 9998. Enillodd yr ymgeisydd hwn radd C. Pennwyd y marc crai a'r ffiniau GMU fel a ganlyn:

Uned		Marc mwyaf	A*	A	B	C	D	E	F	G
9998	Crai	80	73	69	55	42	33	25	17	9
	GMU	100	90	80	70	60	50	40	30	20

13 marc sydd yn y radd C (42 i 54)

10 marc sydd yn y radd C GMU gyfatebol (60 i 69)

Felly, y ffactor trawsnewid yma yw 10 wedi'i rannu â 13 sy'n hafal i 0.77

Enillodd yr ymgeisydd 5 marc dros y ffin gradd C (42 i 47) ac felly mae 5 wedi'i luosi â 0.77 yn hafal i 3.85, wedi'i dalgrynnu i 4.

Felly marc GMU cyffredinol yr ymgeisydd hwn yw $60 + 4 = 64$.

Yn achos unedau haen sylfaenol y gall yr ymgeiswyr ond ennill gradd C ar y mwyaf arnyn nhw, bydd y GMU mwyaf sydd ar gael i'r haen un marc islaw'r marc ffin GMU Gradd B. Yn yr enghraifft hon, byddai hynny'n rhoi marc o 69 allan o 100 GMU.

NODER

Cynlluniwyd y ddogfen hon i amlinellu'n fras y rheswm dros ddefnyddio'r marciau unffurf ac i nodi sut y maent yn cael eu dyrannu. Nid yw'n ymdrin â holl agweddau technegol eu cymhwysiad.